# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **10 MAWRTH 2011** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 IONAWR 2011** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2010 hyd at 31 Ionawr 2011.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2011:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 17 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 3 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |
| Archwiliadau Ymatebol | 0 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2011, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Coed Menai | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Ysgol Friars | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 2 |
| Iechyd a Diogelwch - y "fflyd lwyd" | Adnoddau Dynol | Iechyd a Diogelwch | B | Atodiad 3 |
| Gwirio Rhestrau Gweithwyr | Adnoddau Dynol | Uned Cefnogol | C | Atodiad 4 |
| Trefniadau Adolygu Perfformiad Staff - Gwerthuso | Corfforaethol | | B | Atodiad 5 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Asedau Sefydlog | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 6 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Buddiannau Gweithwyr | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 7 |
| Canolfan Hamdden y Pafiliwn | Darparu a Hamdden | Hamdden | B | Atodiad 8 |
| Gweinyddu Meddyginiaeth yng nghartrefi'r Cyngor | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 9 |
| Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol | Democratiaeth a Chyfreithiol | Cofrestru | B | Atodiad 10 |
| Parc Gwledig Glynllifon | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | B | Atodiad 11 |
| Parc Gwledig Padarn | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | B | Atodiad 12 |
| Diweddaru'r Wefan a Safle'r Mewnrwyd | Gofal Cwsmer | Cyfathrebu | C | Atodiad 13 |
| Contractau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - Cytundeb PSBA | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 14 |
| Rheoli Data | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | B | Atodiad 15 |
| Trefniadau Argyfwng Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | B | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Cynnal Ffyrdd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | C | Atodiad 17 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â’r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- Grant Addysg ôl-16 *(Addysg)*
- Amseriad cychwyn gwaith ac arwyddo/selio contractau *(Corfforaethol)*
- Strategaeth Gwastraff *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | **Derbyniol** |
| Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd | Addysg | Ysgolion | **Derbyniol** |
| Trefniadau Recriwtio Ysgolion Cynradd | Addysg | Ysgolion | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2011**

Gorchmynion Ffyrdd
Cytundebau Escrow
Bryn Afon
Cydymffurfiaeth gyda CoCo (Parth GCSx)
Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2011**

Uned Rheoli Cofnodion
Canolfan Hamdden Plas Silyn
Canolfan Hamdden Glan Wnion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2011**

Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd
Gwirio Rhestrau Gweithwyr

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2011**

Diweddaru'r Wefan

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Chwefror 2011.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Rheolaeth Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- Trefniadau derbyn arian *(Cyllid)*
- Cynllun Lleoli Oedolion *(Darparu a Hamdden)*
- Neuadd Chwaraeon Bro Ffestiniog *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd *(Gofal Cwsmer)*
- Gweithio Symudol a Diogelwch y Perimedr *(Gofal Cwsmer)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Unedau Iaith *(Addysg)*
- Ysgol Dyffryn Ogwen *(Addysg)*
- Ysgol Uwchradd Tywyn *(Addysg)*
- Ysgol y Berwyn *(Addysg)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- Defnydd Cyfieithwyr Allanol *(Corfforaethol)*
- Defnydd Ynni *(Corfforaethol)*
- Grantiau (Grwp Amgylchedd) *(Corfforaethol)*
- Grantiau: Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Gwirio Dangosyddion Perfformiad *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- PQQ a Thendr Ysgol yr Hendre *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth a "TOIL" *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA *(Corfforaethol)*
- Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr *(Cyllid)*
- System Budd-daliadau - Rheoli Gwybodaeth a Chyfrifiadau *(Cyllid)*
- Trefniadau Rheolaeth Priosect Galluogi *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Cist Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Defnyddwyr Rhwydwaith Trydydd Parti *(Gofal Cwsmer)*
- Rheolaeth Asbestos *(Gofal Cwsmer)*
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefniadau Rheoli Ansawdd *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - Bryn Afon *(Darparu a Hamdden)*
- Dilyniant - Cydymffurfiaeth gyda CoCo (Parth GCSx) *(Gofal Cwsmer)*
- Dilyniant - Cytundebau Escrow *(Gofal Cwsmer)*
- Dilyniant - Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio)*
- Dilyniant - Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Llwybrau Cyhoeddus *(Rheoleiddio)*
- Uned Cludiant Integredig *(Rheoleiddio)*
- Prosiect e-Gaffael *(Strategol a Gwella)*
- Ymgynghoriaeth Gwynedd - Dethol Contractwyr *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2010 i 31 Ionawr 2011, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# YSGOL COED MENAI
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Coed Menai er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 94 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 80 o'r meysydd hyn. Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod yr ysgol heb gofrestru gyda'r Ddeddf Diogelu Data, a bod angen sefydlu trefniadau ffurfiol ynglyn â'r defnydd a wneir o'r ddau gae chware.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Coed Menai gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r athrawon gwblhau 'Taflen Hysbysu Archeb' pob tro yr archebir nwyddau/gwasanaethau gan sicrhau eu bod yn eu harwyddo a'u dyddio.**
- **Dylid sicrhau fod y staff sydd wedi archebu a derbyn y nwyddau yn arwyddo'r slip codio i gadarnhau eu bod wedi derbyn y nwyddau ac yn cytuno gyda'r prisiau.**
- **Dylai'r Pennaeth Mewn Gofal gysylltu gyda'r Uwch Syrfewr Stadau, Uned Eiddo er mwyn darparu trefniadau mwy ffurfiol gyda chlwb pêl droed Penrhosgarnedd mewn perthynas â defnydd y ddau gae.**

# YSGOL FRIARS
## Addysg

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Friars er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 102 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 86 o'r rheolaethau hyn. Fodd bynnag gwelwyd mai nifer isel o gyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ac nad yw penderfyniadau sydd wedi eu cymryd gan y Llywodraethwyr y tu allan i gyfarfodydd y Corff Llywodraethol bob amser yn cael eu cofnodi. Hefyd, gwelwyd anghysondeb rhwng cyllideb derfynol yr ysgol a thaenlen monitro'r Uned Gyllid.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Friars gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y Pennaeth yn adrodd ar sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn yr ysgol i'r Is-bwyllgor Cyllid neu i'r Corff Llywodraethwyr.**
- **Dylai'r llywodraethwyr sicrhau eu bod yn cynnal Pwyllgor Cyllid yn unol â Pholisi Rheolaeth Cyllidebol yr ysgol.**
- **Dylai cofnodion cyfarfodydd y Llywodraethwyr ddangos fod y gyllideb am y flwyddyn gyfredol wedi ei fabwysiadu.**
- **Dylai'r Uned Gyllid a'r ysgol gytuno ar gyllideb staffio'r ysgol o'r cychwyn gan sicrhau fod y cyfansymiau ar y daflen monitro staff yr Uned Gyllid a'r system FMS yn cytuno. Dylid unrhyw newid i gost cyflogau yn ystod y flwyddyn gael ei addasu ar y daflen monitro staff a'r system FMS.**
- **Dylid sicrhau fod archeb yn cael eu codi cyn derbyn y gwasanaeth/nwyddau. Os bydd angen archebu ar lafar fel mater o frys, yna dylid cadarnhau hynny yn syth drwy archeb ysgrifenedig.**
- **Dylid sicrhau fod unrhyw benderfyniad mae'r llywodraethwyr yn ei gymryd yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y llywodraethwyr.**
- **Dylai'r ysgol greu polisi trwyddedau meddalwedd a sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**
- **Dylid sicrhau fod rhestr meddalwedd yn bodoli a'i fod yn nodi lleoliad y meddalwedd h.y. pa gyfrifiadur a pha Adran maent wedi eu lleoli.**

# IECHYD A DIOGELWCH - Y "FFLYD LWYD"
## Adnoddau Dynol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau ar gyfer rheoli fflyd lwyd y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

Cwmpas yr Archwiliad

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor am reoli'r defnydd o gerbydau personol swyddogion, gwirio bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch drwy sicrhau bod Polisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn cynnwys cyfrifoldebau swyddogion wrth deithio tra ar fusnes y Cyngor. Yn ogystal, adnabod swyddogion sydd wedi cael eu dynodi fel 'defnyddiwr ceir' a sicrhau eu bod wedi derbyn y canllawiau priodol a'u bod yn cydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau hyn. Hefyd adolygu cyfrifoldebau'r rheolwyr mewn perthynas â rheoli swyddogion sydd yn teithio tra ar fusnes y Cyngor a sicrhau eu bod yn gweithredu ar y gofynion mewn modd priodol. Archwilio'r uned/adran sydd yn gyfrifol am weithredu, monitro a rheoli gweithdrefnau teithio tra ar fusnes y Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol ymlaen ynglŷn â'i gyfrifoldebau i sicrhau diogelwch gweithwyr yn teithio tra ar fusnes y Cyngor drwy gyflwyno nifer o bolisïau newydd ar gyfer rheoli risgiau gyrru. Mabwysiadwyd polisi "Rheoli Risg Galwedigaethol ar y Ffordd - Staff yn Gyrru Cerbyd ar gyfer Defnydd Busnes" ac argraffwyd a dosbarthwyd canllawiau rheoli teithio ar gyfer rheolwyr ynghyd ag anfon llawlyfr i'r holl staff oedd wedi eu dynodi fel defnyddiwr car dynodedig. Buddsoddwyd mewn system bwrpasol, sef Tranman ar gyfer cofnodi manylion dogfennaeth ar gyfer gyrru megis trwyddedau, tystysgrifau MOT ac yswiriant. Adnabuwyd gan Adnoddau Dynol bod 1393 o swyddogion wedi eu dynodi fel defnyddwyr car dynodedig, ond yn ystod yr archwiliad darganfuwyd mai ond 280 oedd wedi cyflwyno eu dogfennau. Fodd bynnag, nid yw swyddogion sydd yn gweithio i'r Uned Darparu a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi eu cynnwys yn y trefniadau corfforaethol, gan fod y gwasanaethau yma gyda rheolaethau gweinyddu a monitro risg gyrru eu hunain ac ymddengys bod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer y swyddogion sydd yn creu'r mwyafrif o filltiroedd uchel o fewn y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y trefniadau ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch - y "fflyd lwyd" gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Iechyd a Diogelwch ddiwygio'r polisi a'r llawlyfr, fel ei fod yn cynnwys yr angen i bob swyddog sy'n defnyddio eu car tra ar fusnes y Cyngor, fod yn gyfrifol am gyflwyno'u dogfennau cyfreithiol i'w rheolwr llinell cyn gallu cynnal y siwrnai, ynghyd â llenwi ac arwyddo'r ffurflen datganiad cerbydau.**

- **Dylai'r Uned Iechyd a Diogelwch ystyried addasu'r polisi fel bod y cyfrifoldeb am wirio a chofnodi dogfennaeth yrru yn gyfrifoldeb uniongyrchol y rheolwyr llinell yn hytrach na'r Gwasanaeth Cefnogol ac i'r perwyl hynny, rhaid sefydlu mynediad i'r rheolwyr i system Tranman a darparu hyfforddiant addas ar eu cyfer.**

# GWIRIO RHESTRAU GWEITHWYR
## Adnoddau Dynol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gwirio gweithwyr sydd yn ymddangos ar gyflogres y Cyngor a sicrhau bod adrannau'r Cyngor yn gweithredu ar y gwiriadau mewn modd priodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Holi'r Uned Cefnogol beth yw'r drefn ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu adroddiadau rhestrau gweithwyr y Cyngor; adolygu ac archwilio'r drefn i sicrhau bod yr Uned Cefnogol, yn ogystal â holl adrannau eraill y Cyngor yn gweithredu ar y rhestrau mewn modd priodol a chywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd nad oedd gan yr Uned Cefnogol weithdrefnau cadarn mewn lle ar gyfer cynhyrchu ac anfon adroddiadau rhestrau gweithwyr ar gyfer eu gwirio. Adnabuwyd sawl diffyg ar y gweithrediad yn ystod yr archwiliad megis ddiffyg cyfarwyddiadau clir wedi eu paratoi a'u cylchredeg gyda'r adroddiad i reolwyr yn esbonio diben cynnal yr ymarfer o wirio rhestrau ynghyd â sut ac i bwy i adrodd am unrhyw anghysondebau, yn ogystal ag adroddiadau annigonol yn cael eu cynhyrchu, h.y. roedd y manylion ond yn cynnwys gweithwyr oedd wedi cychwyn eu swydd neu newid graddfa. Fodd bynnag, drwy adnabod y diffygion hyn, cafwyd trafodaeth i gael datrysiad i'r problemau ac i sicrhau gweithrediad mwy effeithiol, ac yn dilyn cais gan yr Uned Archwilio mae'r Uned Cefnogol gyda chymorth yr Uwch Raglennydd/Dadansoddydd wedi sefydlu gweithdrefn ar gyfer paratoi a dosbarthu adroddiadau gwirio rhestrau gweithwyr sydd lawer mwy effeithiol ac effeithlon a derbyniwyd cadarnhad bod gweithrediadau ar y gweill i gynnal yr ymarferiad yn y dyfodol agos.

Prif bwrpas yr ymarferiad yma yw adnabod gweithwyr ffug neu i adnabod gweithwyr sydd wedi terfynu eu cyflogaeth gyda'r Cyngor ond yn parhau ar y gyflogres trwy amryfusedd. Rhaid ystyried pwysigrwydd cynnal yr ymarferiad ar sail reolaidd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Gwirio Rhestrau Gweithwyr gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y rhestr dosbarthiad yn cael ei gwirio'n flynyddol am ei dilysrwydd a hysbysu'r Uned TG o'r canlyniadau.**
- **Dylid paratoi cyfarwyddiadau clir a'u cylchredeg gyda'r adroddiad i reolwyr yn esbonio pwrpas cynnal yr ymarfer o wirio rhestrau ynghyd â sut ac i bwy i adrodd am y gwiriadau ac am unrhyw anghysondebau.**
- **Dylid cynnal gwiriadau ar sampl o reolwyr ar hap i sicrhau bod yr ymarfer gwirio rhestrau gweithwyr wedi derbyn sylw priodol.**

# TREFNIADAU ADOLYGU PERFFORMIAD STAFF - GWERTHUSO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau yn eu lle fel bod swyddogion y Cyngor yn cael eu gwerthuso'n flynyddol a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal i safon briodol, er mwyn adnabod a darparu anghenion datblygu swyddogion y Cyngor, er mwyn cyfrannu tuag at amcanion a gwerthoedd y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gyfundrefn ar gyfer gwerthuso a sicrhau bod swyddogion wedi derbyn hyfforddiant ar y trefniadau a'r gofynion. Adnabod swyddogion sydd wedi cael eu gwerthuso yn y cyfnod gwerthuso 2010/11 a holi beth yw eu barn am ansawdd y gwerthuso a dderbyniwyd. Yn ogystal, adnabod swyddogion sydd heb eu gwerthuso a holi'r swyddogion beth oedd y rhesymau dros hynny. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithwyr llaw yn wahanol i'r hyn sydd wedi ei sefydlu ar gyfer staff coler wen, felly ni fydd gweithwyr llaw yn rhan o'r adolygiad hwn.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod oddeutu 800 o staff wedi mynychu hyfforddiant ar y drefn werthuso dros y ddwy flynedd diwethaf. Un broblem sydd yn bodoli gyda'r trefniadau presennol yw nad yw rhai swyddogion yn gwerthuso eu staff oherwydd nad ydynt wedi eu gwerthuso eu hunain. Er bod y drefn werthuso'n hyrwyddo'r dull "top down", ni ddylai hynny effeithio ar werthuso eraill. Pwysleisiwyd hyn i'r holl benaethiaid gan y Pennaeth Adnoddau Dynol ond yn amlwg ni roddwyd sylw priodol i'r mater. Amlygwyd yn ystod yr archwiliad nad oes cyfarfodydd adolygu cynnydd yn cael eu cynnal fel sydd yn ofynnol yn ôl y drefn. Golyga hyn nad oes cyfle i drafod yr amcanion a sefydlwyd yn y cynllun gweithredu. Adnabuwyd mai cyfrifoldeb y rheolwyr llinell yw cynnal y broses werthuso gorfforaethol, ac mae methiant i gyflawni'r ddyletswydd mewn modd priodol yn rhwystro'r Cyngor gwrdd ag anghenion a datblygu'r gweithlu. Problem arall gyda'r drefn yw'r ffaith nad yw swyddogion yn dychwelyd ffurflen H4 i gadarnhau y cynhaliwyd cyfarfod gwerthuso ac oherwydd hynny penderfynwyd y dylid cadarnhau y cynhaliwyd y gwerthuso drwy e-bost at sylw'r cymhorthyddion hyfforddi. Mae methiant i gadarnhau y cynhaliwyd gwerthuso yn ystumio ystadegau niferoedd staff sydd yn cael eu gwerthuso mewn gwirionedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Adolygu Perfformiad Staff gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai bod pob Pennaeth Adran yn atgoffa Rheolwyr, Arweinyddion Maes a Goruchwylwyr sydd â chyfrifoldeb am staff am y pwysigrwydd o baratoi cynllun gweithredu a chynnal cyfarfodydd adolygu cynnydd gydag aelodau eu timoedd.**

- **Dylai bod Rheolwyr, Arweinyddion Maes a Goruchwylwyr sydd â chyfrifoldeb am staff weithredu ar y drefn gwerthuso fel arfer, yn dilyn methiant i werthuso'r dull 'top down'.**

- **Dylai'r Penaethiaid Adrannau gyfeirio eu rheolwyr at y polisi tan-perfformio a thynnu eu sylw am oblygiadau diffyg gwerthuso staff.**

## PARATOADAU AR GYFER IFRS - ASEDAU SEFYDLOG
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

O'r flwyddyn ariannol 2010/11 ymlaen, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gydymffurfio gyda IFRS - International Financial Reporting Standards (SAAR - Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) wrth baratoi eu datganiadau ariannol. Un o'r newidiadau rhaid mabwysiadu oherwydd gofynion IFRS yw'r ffordd mae'r Cyngor yn cyfrifo am asedau sefydlog. Bwriad yr archwiliad yma yw sicrhau bod Cyngor Gwynedd wedi gweithredu ar y newid yma er mwyn cyflawni'r gofynion newydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae cwmpas yr archwiliad yma yn cynnwys gwirio os yw Cyngor Gwynedd yn trin asedau sefydlog yn eu cyfrifon ariannol yn unol â safonau IFRS gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer casglu'r wybodaeth sydd ei angen i gyflawni'r gofynion newydd. Bydd cywirdeb y cyfrifon a ailddatganwyd yng nghwmpas archwiliad a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly nid yw'n cael ei brofi yn yr adolygiad hwn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod yr Uned Gyfrifeg wedi cymryd y camau priodol er mwyn mabwysiadu safonau cyfrifeg newydd IFRS parthed asedau sefydlog.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol ym mharatoadau ar gyfer IFRS - Asedau Sefydlog gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle.**

# PARATOADAU AR GYFER IFRS - BUDDIANNAU GWEITHWYR
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

O'r flwyddyn ariannol 2010/11 ymlaen, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gydymffurfio gyda IFRS - International Financial Reporting Standards (SAAR - Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) wrth baratoi eu datganiadau ariannol. Un o'r newidiadau rhaid mabwysiadu oherwydd gofynion IFRS yw'r ffordd mae'r Cyngor yn cyfrifo am fuddiannau gweithwyr. Bwriad yr archwiliad yma yw sicrhau bod Cyngor Gwynedd wedi gweithredu ar y newid yma er mwyn cyflawni'r gofynion newydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau Cyngor Gwynedd o gyfrifo am fuddiannau gweithwyr yn unol â IFRS (IAS19) gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer casglu'r wybodaeth sydd ei angen i gyflawni'r gofynion newydd. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar gywirdeb y wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Adrannau/Gwasanaethau'r Cyngor. Bydd cywirdeb y cyfrifon a ailddatganwyd yng nghwmpas archwiliad a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly nid yw'n cael ei brofi yn yr adolygiad hwn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod yr Uned Cyfrifeg wedi paratoi yn drylwyr tuag at fabwysiadu IAS19. Gwelwyd bod sampl teg o fanylion gwyliau gweithwyr y Cyngor wedi'i dethol, gyda trawsdoriad rhesymol ar draws adrannau, mannau gweithio a graddfeydd cyflog. Adnabuwyd categorïau sylweddol o weithwyr sef; Athrawon, Eraill sy'n gweithio tymhorau ysgol yn unig, GPT&Ch (Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlerigol) a Gweithwyr llaw (yn bennaf Bwrdeistrefol a Darparu). Wrth ystyried methodoleg dethol sampl yr Uned Gyfrifeg a'r cyfrifiadau perthnasol a welwyd yn y papurau gwaith, gwelwyd bod sampl digonol wedi ei gymryd a bod y cyfrifiadau a wnaethpwyd yn briodol. Yn sgil hyn, credir bod y croniad IAS19 yn adlewyrchu buddiannau gweithwyr yn dêg yn y cyfrifon.

## Barn yr Archwiliad

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol ym mharatoadau ar gyfer IFRS - Buddiannau Gweithwyr gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CANOLFAN HAMDDEN Y PAFILIWN
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y Ganolfan er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu samplau o drafodion ariannol ar gyfer flwyddyn ariannol 2009/10 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc. Sicrhau hefyd bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, gwelwyd yn ystod yr archwiliad hwn bod rhai achosion o reolaethau da iawn yn bodoli mewn trefniadau ariannol a threfniadau arwyddo dogfennau. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai ddiffygion wrth edrych ar drefniadau'r rhestr eiddo, ac arwyddo dogfennau ariannol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Canolfan Hamdden y Pafiliwn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod dau swyddog yn llofnodi'r Llyfr talu i mewn i'r banc ar bob achlysur.**
- **Dylid sicrhau bod adroddiadau "Point of Sale Transaction" yn cael eu llofnodi a'i dyddio i gadarnhau eu bod wedi cael eu gwirio.**
- **Dylid sicrhau bod Ffurflen Cymodi Arian yn cael ei gwblhau ar bob achos i leihau'r risg o arian yn mynd ar goll neu yn cael ei gyfri yn anghywir.**
- **Dylai swm y cyfrif 'dal' J999 SJ79 fod gyda balans o £0.00 ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac felly mae angen clirio'r credyd sy'n sefyll ers y flwyddyn ariannol 2009/10 er mwyn gwneud hyn.**
- **Dylid sicrhau bod trefn briodol ar ddelio gydag anfonebau na thalwyd i'r Ganolfan yn ystod y flwyddyn.**
- **Dylid sicrhau bod gwahaniaeth mewn dyletswyddau wrth archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau fel nad yw un swyddog yn llofnodi'r bylchau gwirio ar y TR252 ac yn ei ardystio i'w dalu.**
- **Dylid sicrhau bod swyddog annibynnol i'r un sydd yn cadw'r cofnodion yn gwirio'r stoc ar y rhestr eiddo yn flynyddol, ac yna yn ei lofnodi a'i ddyddio.**
- **Dylid sicrhau bod y rhestr eiddo yn cynnwys rhif cyfresol pob eitem o eiddo lle'n briodol.**
- **Dylid sicrhau bod larymau tân yn cael eu profi yn wythnosol yn unol â Pholisi Tân a Gwacau'r Gweithdrefnau Gweithredu.**

# GWEINYDDU MEDDYGINIAETH YNG NGHARTREFI'R CYNGOR
## Darparu a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod trefniadau gweinyddu meddyginiaeth yng nghartrefi preswyl y Cyngor yn briodol, yn cydymffurfio â deddfwriaethau ac yn seiliedig ar ymarfer da.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Archwilio gweithdrefnau'r Adran Darparu a Hamdden mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth yng nghartrefi preswyl y Cyngor a chadarnhau bod y gweithdrefnau a sefydlwyd yn cael eu dilyn yn briodol yn y cartrefi. Mae'r gweithdrefnau yn cwmpasu agweddau megis trefniadau storio'r feddyginiaeth yn y cartrefi, trefniadau cadw cofnodion, yn ogystal â beth i'w wneud os byddai camgymeriad yn y broses gweinyddu.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Ar y cyfan, roedd trefniadau cadarn yn eu lle. Fodd bynnag, y prif wendid a adnabuwyd yw nad oedd pob gweithiwr yn y cartrefi wedi darllen y polisi meddyginiaeth ac felly nid ydynt yn gyfarwydd gydag ei chynnwys. Gwelwyd hefyd bod angen cryfhau trefniadau monitro tymheredd yr ystafelloedd meddyginiaeth.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gweinyddu meddyginiaeth yng nghartrefi'r Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod pob gweithiwr gofal yng nghartrefi preswyl y Cyngor yn gyfarwydd gyda chynnwys y Polisi Meddyginiaeth.**
- **Dylid sicrhau bod y cartrefi yn nodi ar y Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth ('MAR') yr adegau pan nad yw preswylydd yn cymryd eu meddyginiaeth, ac yn rhoi esboniad pam.**
- **Mae angen i oruchwylwyr wirio'r drefn yn achlysurol (ar sail sampl) ac arwyddo a dyddio'r ddogfennaeth sy'n cadarnhau bod gwiriadau wedi cymryd lle.**
- **Dylai'r cartrefi gofnodi alergeddau pob preswylydd ar y MAR gan ei fod llai tebygol o gael ei fethu os wedi'i gofnodi yn y fan honno.**
- **Er mwyn lleihau'r risg o allweddi yn mynd ar goll, dylid ystyried osod clip ar yr allweddi er mwyn iddynt allu glynu i ddillad y gweithwyr.**
- **Rhaid cadw cofnodion o wiriadau stoc blynyddol y fferyllydd.**
- **Rhaid i gartrefi preswyl y Cyngor sicrhau bod tymheredd yr ystafell feddyginiaeth ddim uwch nag 25°C ar unrhyw amser yn ogystal â sicrhau bod tymheredd yr oergell meddyginiaeth oer o hyd rhwng 2°C a 8°C. Bydd hi'n ymarfer da petai'r cartrefi yn cofnodi lleiafswm ac uchafswm tymheredd yr ystafell feddyginiaeth bob dydd.**

# GWEINYDDU'R GOFRESTR ETHOLIADOL
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r gofrestr etholiadol a sicrhau bod y trefniadau'n cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998 a 'The Representation of the People (England and Wales) (Amendment) Regulations 2002 (SI 2002/1871)'.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio ffurflenni cofrestru etholwyr a ffurflenni addasiadau i sicrhau eu bod yn cynnwys datganiadau priodol a bod y manylion yn cael eu cofnodi ar y gofrestr etholiadol yn gywir yn ogystal â sicrhau bod manylion a gofnodir yn electronig yn cael ei diweddaru'n briodol. Hefyd adolygu'r trefniadau ar gyfer gwerthu a rhyddhau'r gofrestr etholiadol.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod gan y Swyddfa Cofrestru drefniadau priodol ar gyfer gweinyddu'r gofrestr etholiadol, sef y canfas blynyddol. Gwelwyd bod y system gweinyddu'r gofrestr etholiadol, Eros yn gynhwysfawr i anghenion y gwasanaeth. Gwelwyd bod y trefniadau wedi cael eu gweithredu'n briodol ac yn brydlon gan y Swyddog Cofrestru i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r amserlen rhyddhau'r gofrestr etholiadol ar y 1af o Ragfyr. Gwelwyd hefyd eu bod yn darparu gwasanaeth diogelu i'w canfaswyr drwy ddarparwr allanol, fodd bynnag ni welwyd bod cyfarwyddiadau am hyn yn llawlyfr y canfaswyr.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y Gofrestr Etholiadol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai bod yr Uned Cofrestru yn gwneud cais i dderbyn mynediad i fasdata Diogelwch Staff y Cyngor fel bo'r angen.**
- **Dylai bod y trefniadau diogelwch sydd wedi eu darparu yn cael eu manylu yn llawlyfr y canfaswyr.**

# PARC GWLEDIG GLYNLLIFON
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau Parc Glynllifon yn briodol er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn unol â rheolau ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r Parc er mwyn rheoli amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod yna achosion lle na chwblheir derbynebau swyddogol pan dderbynnir incwm, nad oes gan y Parc rhestr eiddo cyfredol ac nid oes trefn o gwblhau taflenni i adrodd ar gyflwr ac unrhyw ddiffygion a ddarganfyddir ar gerbyd y Parc.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol ym Mharc Gwledig Glynllifon gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid darparu derbynneb swyddogol o'r llyfr derbynebau TR32b ar gyfer arian a dderbynnir gan fasnachwyr sydd yn mynychu digwyddiadau yn y Parc.**

- **Pan gesglir arian yn y Parc wrth y giât yn hytrach nag yn y siop, dylid sicrhau fod system yn cael ei fabwysiadu i gofnodi faint o ymwelwyr sydd wedi mynychu'r digwyddiad.**

- **Byddai'n ymarfer da pe byddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn medru darparu adroddiadau monitro yn erbyn y gyllideb yn fisol ar gyfer Rheolwr y Parc.**

- **Dylid sicrhau fod taflenni priodol yn cael eu cwblhau yn rheolaidd i adrodd ar gyflwr ac unrhyw ddiffygion a ddarganfyddir ar gerbyd y Parc.**

# PARC GWLEDIG PADARN
## Economi a Chymuned

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau fod trefniadau Parc Padarn yn briodol er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn unol â rheolau ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r Parc er mwyn rheoli amrywiol o risgiau.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Y prif ddarganfyddiad oedd fod rheolaeth yn gyffredinol dda yn y Parc. Er hyn, gwelwyd nad oes gan y Parc rhestr eiddo cyfredol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol ym Mharc Gwledig Padarn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau pan fo ticedi parcio blynyddol yn cael eu gwerthu gan fasnachwyr eraill ar ran y Parc bod derbynneb swyddogol yn cael ei ddosbarthu o’r llyfr derbynebau TR32b i'r masnachwr pan dderbynnir arian y tocynnau ganddynt.**

- **Dylid ystyried cynyddu lefel arian mân y Parc os yw’r lefel presennol yn annigonol.**

- **Dylid sicrhau fod rhestr eiddo cyfredol yn cael ei gadw sy’n rhestru dodrefn, ffitiadau ac offer y Parc.**

- **Dylid sicrhau fod y rhestr eiddo yn cael ei harchwilio a’i diweddaru’n flynyddol a bod y person sydd yn archwilio a diweddaru'r rhestr yn arwyddo a dyddio'r rhestr.**

# DIWEDDARU'R WEFAN A SAFLE'R MEWNRWYD
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod yna drefn i ddiweddaru'r wefan mewn modd priodol, cywir a phrydlon, ble yn berthnasol. Mae bwriad yn ogystal i sicrhau fod yr egwyddorion yma yn weithredol ar gyfer diweddaru'r fewnrwyd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae bwriad adolygu'r trefniadau a'r adnoddau mewn lle i ddiweddaru'r wefan a'r fewnrwyd ynghyd ag adolygu sampl o'u cynnwys i sicrhau cydymffurfiad ag ymarferion da.

Prif Ddarganfyddiadau

Mynegwyd yn ystod gwaith maes yr archwiliad nad yw'r system rheoli cynnwys yn addas ar gyfer gofynion presennol y wefan gorfforaethol a'r fewnrwyd ac mae pryderon na fydd y system yn gallu cyflawni'r tasgau angenrheidiol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol heb ddraen sylweddol ar adnoddau. Nodwyd achosion lle nad oedd y system bresennol yn galluogi'r gweithrediad o reolaethau disgwyliedig yr archwiliad yma. Nodwyd fod meddiannu system rheoli cynnwys yn destun prosiect cydweithio rhwng awdurdodau Gogledd Cymru.

O safbwynt hygyrchedd, mae angen cynnal asesiad o sefyllfa gwefan gorfforaethol y Cyngor gan ei gymharu â gofynion safonau a deddfwriaeth berthnasol.

Mae angen amlinellu'r arweiniad i awduron cynnwys osgoi defnyddio dogfennau atodol o fewn tudalennau'r fewnrwyd na'r wefan os yw'r wybodaeth a gyflwynir yn debygol o gael ei adolygu a'i addasu.

Mae angen dogfennu strategaeth ddichonol ac ymarferol ar gyfer y fewnrwyd ac mae angen ffurfioli cyfrifoldebau a hawliau'r swyddogion perthnasol fel bod modd gweithredu'r strategaeth unwaith y caiff ei chymeradwyo.

Mae angen cynnwys elfennau o ddiogelwch i'r prosesau profi o fewn methodoleg datblygu systemau'r Cyngor, hynny yn ychwanegol i brofi bod y systemau yn cyflawni'r tasgau angenrheidiol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y trefniadau ar gyfer diweddaru'r wefan a safle'r mewnrwyd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ychwanegu elfennau diogelwch i'r broses profi datblygiadau newydd y wefan o fewn y methodoleg datblygu swyddogol ar ben y profi cyffredinol fod y datblygiadau yn cyrraedd gofynion gwreiddiol y defnyddiwr.**

- **Dylai strategaeth datblygu'r fewnrwyd nodi strwythur ffurfiol rheoli'r fewnrwyd, mewn dull tebyg i'r hyn sydd wedi ei sefydlu ar gyfer datblygu'r wefan gorfforaethol, fel ei fod yn glir pa swyddogion sydd â hawl cymeradwyo datblygiadau i'r fewnrwyd a pha brosesau swyddogol fyddai rhaid eu dilyn er mwyn cyflawni hynny.**

- **Dylid tanlinellu'r pwysigrwydd o osod dyddiad amlwg ar atodiadau'r wefan a'r fewnrwyd er mwyn rhoi cyd-destun iddynt gan gynnwys hynny yn y ddogfen 'Canllawiau ysgrifennu ar y we'.**

# CONTRACTAU TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU - CYTUNDEB PUBLIC SECTOR BROADBAND AGGREGATION (PSBA)
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y mesurau a'r rheolaethau mewn lle ar gyfer cytundeb yr Uned Technoleg Gwybodaeth yn unol â'r disgwyl.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd y cytundeb mewn lle ar gyfer y PSBA ("Public Sector Broadband Aggregation"), sef uwchraddiad o rwydwaith y Cyngor gan ymuno gyda rhwydwaith sector cyhoeddus sydd â buddiannau cyflymder a hydwythdedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y monitro a rheoli ar gyfer y cytundeb yma wedi bod o safon da a bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r disgwyl.
Fe nodwyd rhai eitemau lle gellir gwella ar yr ochr weinyddol ar gyfer y cytundeb yma a phrosiectau eraill yn y dyfodol. Gwelwyd nad oedd ffeil bapur penodol ar gyfer y gwaith, a bod dogfennau'n cael eu cadw ar ffurf electroneg. Nid oedd copïau o rai dogfennau allweddol ymysg y rhain fyddai wedi profi fod prosesau swyddogol wedi eu dilyn ym mhob achos. Er enghraifft, nid oedd copi o ffurflenni awdurdodi amrywiad gyda llofnod priodol ar gael i'w hadolygu. Yn ogystal, nid oedd dadansoddiad o'r dyfynbrisiau wedi eu derbyn i bwrpas cynnal ymarferiad cymharu'r symiau yma gyda'r symiau sydd yn cael eu bilio am y gwaith.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth a threfniadau'r Cytundeb PSBA gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid rhoi cais am ddadansoddiad o ffigyrau dyfynbris mor fanwl â sydd bosib fel bod modd cynnal ymarferiad i sicrhau fod y symiau sydd yn cael eu bilio yn unol â'r hyn sydd wedi ei gytuno.**

- **Dylid sicrhau fod pob eitem o ddogfennaeth allweddol sydd angen ei argraffu a'i lofnodi yn cael ei gopïo fel tystiolaeth fod hynny wedi digwydd, unai drwy ei ffotocopïo er mwyn creu copi caled neu drwy ei sganio er mwyn creu copi electroneg.**

# RHEOLI DATA
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod yr Uned Perfformiad a Data yn casglu data yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad a bod staff yn ymwybodol ac yn deall eu cyfrifoldebau.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio gweithdrefnau gwasanaeth yr Uned Perfformiad a Data er mwyn adolygu sut maent yn ymdrin â data PM1 a PM2 oddi fewn ei cyfrifoldebau, a chadarnhau bod y gweithdrefnau a sefydlwyd yn unol â chanllawiau'r Cynulliad.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod enghreifftiau o weithredu yn unol a threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor ac fel canlyniad i ofynion y Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag gwelwyd nad oes un ffynhonnell ar gael i ddadansoddi data y dangosyddion perfformiad, a bod gwendid yn y system hyfforddiant i'r swyddogion perthnasol. Dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd. Ar y cyfan gwelwyd bod gwaith o gasglu data i'r dangosyddion perfformiad o safon dda iawn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y drefn Rheoli Data gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Awgrymir y dylai Uned Perfformio a Data drefnu cyfarfod / hyfforddiant ar ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau bod y swyddogion sy'n casglu'r wybodaeth yn glir ar yr wybodaeth sydd ei angen a'u cyfrifoldebau. Gall hyn hefyd fod o gymorth i adeiladu perthynas dda. Dylid sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dosbarthu i swyddogion perthnasol yn fewnol ac yn allanol.**

- **Dylid parhau i geisio cael un ffynhonnell gyda data dibynadwy ar gyfer dangosyddion perfformiad e.e. RAISE. Yn y cyfamser, ac os yn ymarferol dylid creu fformat gyffredinol er mwyn casglu data, fyddai'n gwneud y gwaith o'i goladu yn rhwyddach.**

- **Gan fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail y dangosyddion perfformiad, mae'n bwysig fod canran uchel o'r data dderbynnir yn cael ei wirio, er mwyn sicrhau ei fod yn gywir a dibynnadwy. Angen targedu data y dangosyddion sy'n cael eu hystyried angen bod o ansawdd gwell.**

- **Dylid atgoffa swyddogion sy'n hwyr yn cyflwyno data o'u cyfrifoldebau i ddarparu data i'r Uned ar amser priodol.**

# TREFNIADAU ARGYFWNG GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau argyfwng Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol, canllawiau perthnasol ac ymarfer da, gan gynnwys gwirio bod gweithdrefnau priodol yn bodoli ar gyfer amddiffyn a chymhorthi unigolion mewn argyfwng a bod swyddogion y Cyngor wedi eu hyfforddi i'r safon ofynnol.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio gweithdrefnau'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â threfniadau argyfwng a chadarnhau bod y gweithdrefnau a sefydlwyd yn seiliedig ar ofynion statudol ac ymarfer da. Bydd yr archwiliad yn ymchwilio os yw adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gymwys i ymdopi gydag argyfyngau, drwy ddarganfod pa gyfleusterau sydd ar gael i unigolion boed yn ganolfannau gorffwys neu unrhyw gefnogaeth perthnasol arall.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw'r ffaith bod cynlluniau parhad busnes Tai - Cefnogi Pobl a Tai - Digartrefedd yn anghyflawn. Yn ogystal â hyn, darganfuwyd na all yr Uned Digartrefedd ymdopi mewn argyfwng mawr i ddarparu cartref dros dro i unigolion sydd wedi'u dadleoli.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o drefniadau argyfwng Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Rhaid anelu i gwblhau cynlluniau parhad busnes 'Tai - Cefnogi Pobl' a 'Tai - Digartrefedd' cyn gynted â phosibl.**

- **Dylid diweddaru'r 'Cynllun ar gyfer Lletya Pobl mewn Sefyllfa Argyfwng Mawr' er mwyn cynnwys enwau a rhifau cyswllt sefydliadau addas all gynnig llety dros dro i unigolion sydd wedi'i di-gartrefu.**

- **Dylid ystyried mabwysiadu trefn ble mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cysylltu yn rheolaidd gyda chwmnïau preifat a meddygfeydd y Sir er mwyn adnabod a chofrestru unigolion bregus sydd ddim yn derbyn cymorth gan y Cyngor er mwyn gallu eu hadnabod yn gyflymach mewn argyfwng.**

- **Er disgwylir i swyddogion perthnasol y Canolfannau Gorffwys fod â chymhwyster cymorth cyntaf cyfredol, argymhellir i gryfhau'r drefn o adnabod y swyddogion cymorth cyntaf ac os yn bosib derbyn copïau o'r tystysgrifau yn flynyddol.**

# CYTUNDEBAU CYNNAL FFYRDD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr Archwiliad fydd adolygu trefniadau caffael yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer pwrcasu gwaith cylchol gan gontractwyr.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cwmpas yr Archwiliad fydd edrych sut mae'r Adran yn pwrcasu'r gweithiau canlynol gan gontractwyr allanol - ail-wynebu (cod Cyfriflyfr - PWT04), arwisgo (PWT05), pibelli draenio (PWT08), torri glaswellt (PWT14), rheoli chwyn (PWT15), a marciau ffordd (PWT19).

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod y gwaith o ddarparu cytundebau newydd wedi llithro ac nad oes cytundeb yn bodoli ar gyfer gwaith torri gwair a bod y cytundebau marciau ffordd a rheoli chwyn wedi eu hymestyn yn hirach na'r cyfnod a nodwyd yn yr hysbyseb wreiddiol sy'n golygu bod yr Adran wedi tramgwyddo rheoliadau caffael Ewrop.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cytundeb am waith torri gwair yn mynd i dendr cyn gynted â phosib.**
- **Dylai'r Swyddog Systemau Rheolaeth fod yn ymwybodol o anghenion gwaith yr Adran gyfan fel y gellir sefydlu fframweithau ble mae'n ddichonadwy i fwy nag un Uned ei ddefnyddio (e.e. cytundeb rheoli chwyn).**
- **Dylid sicrhau nad yw cytundebau cyfredol rheoli chwyn a marciau ffordd yn cael eu defnyddio mwyach.**
- **Dylid dechrau'r gwaith o ddarparu dogfennau tendro rheoli chwyn a marciau ffordd yn ar fyrder fel y gellid sicrhau bydd cytundeb newydd mewn lle cyn gynted â phosib.**